

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>10 Rhagfyr 2018</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Panel Gwella Gwasanaethau Plant</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Diweddariad cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant</b>
<b>Cadeirydd Sgriwtini:</b>	<b>Cyng. Aled Morris Jones</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Cyng. Llinos Medi Hughes</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol / Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> <b>Rhif Ffôn:</b> <b>E-bost:</b>	<b>Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini</b> <b>01248 752578</b> <b>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Ddim yn berthnasol</b>

### 1 – Argymhelliad/Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cyflawni ei raglen waith
- Bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n perthyn i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth i weld ar darged hyd yn hyn
- Y meysydd gwaith yr ymdriniwyd â hwy yn ystod yr Ymweliadau Laming, fel modd o gryfhau atebolrwydd, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel ymhellach
- Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, lle caiff llawer ohoni ei darparu'n fewnol

**A2** Cyfeirio'r mater yma i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn iddo fod yn ymwybodol:

- Er bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae nifer fechan o swyddi gweithwyr cymdeithasol yn dal i gael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth. Mae hyn yn cael sylw trwy benodi gweithwyr cymdeithasol (rhai profiadol a newydd gymhwyso) a thrwy gefnogi gweithwyr cefnogi profiadol i gymhwyso. Dylid nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn.

### 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol gyda Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Panel o'r cynllun gwella gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau plant yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb yn gadarn i'r argymhellion yn yr adroddiad diweddar gan AGC ar y gwasanaethau plant (dyddiedig Mawrth, 2017) a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

### 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
  - Atal
  - Integreiddio
  - Cydweithio
  - Cynnwys
- [ffocws ar lesiant]**

#### 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ar gais y Panel:

1. Oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith sydd wedi'u cynnwys ym mlaen raglen waith y Panel?
2. A yw'r camau a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac wedi digwydd ar y cyflymder cywir?

#### 5 – Cefndir / Cyd-destun

##### 1. CYD-DESTUN

Fel y nodwyd o'r blaen, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod sgriwtini wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf trwy waith 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**.

##### Trefniadau Llywodraethiant y Panel

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle i danategu gwaith y Panel<sup>1</sup> a bwriedir cynnal cyfarfodydd misol o'r Panel tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon o leiaf. Mae proses mewn lle ar gyfer derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan y Cynghorydd Richard Griffiths, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

##### 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT

2.1 Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers mis Gorffennaf, 2017 (maent wedi cwrdd ar 16 achlysur bellach). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel am y cyfnod **Medi – Tachwedd, 2018**:

<sup>1</sup> Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gyfarfu ar 4 Medi a 13 Tachwedd, 2017

- **Cynllun Gwella Gwasanaeth (SIP)** – rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth mewn cyfarfodydd o'r Panel i sicrhau bod y rhaglen gyfan yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Hefyd, i alluogi'r Panel i adnabod unrhyw arwyddion cynnar o lithriad neu ddiffyg cynnydd. Gofynnodd y Panel am adroddiad cynnydd ar statws CAG pob rhan o'r Cynllun Gwella er mwyn sicrhau bod y Panel yn tracio cynnydd yn erbyn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae cynnydd da wedi'i adrodd ar weithredu'r Cynllun Gwella. Hefyd, mae wedi'i nodi eto fod nifer fechan o swyddi gweithwyr cymdeithasol yn dal i gael eu llenwi gan staff asiantaeth a bod angen i'r rhain gael eu llenwi gan weithwyr parhaol.

Mae'r Panel wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r agweddau canlynol o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth:

- ✚ **Data rheoli perfformiad** – sicrhau fframwaith perfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar yr holl agweddau ar berfformiad fel yr oeddynt yn Chwarter 1: 2018/19. Adroddwyd gwelliant sylweddol yn Ch1 o gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18. Fodd bynnag, roedd rhai dangosyddion a oedd angen sylw pellach – yn benodol, y ganran o ymweliadau statudol â phlant sydd yng ngofal yr Awdurdod.
- ✚ **Statws CAG pob un o'r blaenoriaeth allweddol (SIP)** – trosolwg manwl o statws pob un blaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau cynnydd digonol. Nodwyd fod rhannau o'r Cynllun Gwella sydd wedi eu marcio'n Ambr bellach wedi'u torri i lawr i ffrydiau gwaith llai er mwyn dwyn tystiolaeth ynghyd a mesur cynnydd yn effeithiol. Mae crynodeb isod o statws cyfredol pob un o'r blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth:

<b>Coch</b>	<b>0</b>
<b>Ambr</b>	<b>2</b>
<b>Melyn</b>	<b>6</b>
<b>Gwyrdd</b>	<b>13</b>

- **Ymweliadau Laming** – mae proses adrodd gadarn yn ei lle ar gyfer Ymweliadau Laming gyda'r amcan o ddod â'r Panel yn agosach at achosion, creu'r amodau i Aelodau allu gwerthfawrogi'r cymhlethdod a'r heriau sydd ynghlwm â chyfrifoldebau'r Gwasanaeth e.e. trwy gyfarfod staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Mae Aelodau'r Panel wedi edrych ar 3 agwedd dros y chwarter diwethaf:

- i. **Adroddiad blynyddol** – crynhoi themâu'r Ymweliadau Laming yn ystod y cyfnod Hydref, 2017 → Medi, 2018. Mae crynodeb o'r themâu allweddol ynghlwm (**ATODIAD 1**)
- ii. **Ymweliadau Laming Misol** – Adroddodd yr Aelodau'n ôl ar yr Ymweliadau Laming a gynhaliwyd ym mis Medi a Tachwedd o dan y fframwaith llywodraethiant gryfach. Roedd yr Ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar:
  - ❖ Cynhadledd Achos Ffug (17/09/18) – Ymweliad mis Medi ar ffurf cynhadledd achos ffug gydag Aelodau / Uwch Swyddogion yn chwarae rôl y rhai a fyddai'n rhan o'r fath gynhadledd (mam, tad a ffrindiau'r teulu). Roedd y Gynhadledd yn seiliedig ar achosion di-enw o lwyth achosion y Gwasanaeth. Roedd hyn yn galluogi'r cyfranogwyr i werthfawrogi'n well y cymhlethdodau ynghlwm â'r broses.
  - ❖ Diweddariad ar Flaenoriaethau, Dangosyddion Perfformiad a Chyllidebau'r Gwasanaeth (19/11/18) – briffio gan y Pennaeth Gwasanaeth
  - ❖ Y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol (20/11/18) – caiff hyn ei adrodd yn y diweddariad chwarterol nesaf gan y Panel i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, 2019.
- **Gweithio mewn partneriaeth** – trafodaeth fanwl gyda Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion ar gydweithio rhwng y ddau wasanaeth gan ganolbwyntio ar:
  - i. Prosesau a threfniadau wrth gefnogi trosglwyddiad pobl ifanc o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion
  - ii. Gwasanaethau i gefnogi rhieni plant/pobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gan yr Awdurdod

Nododd y Panel yr angen i ddatblygu ymhellach y cydweithio rhwng y ddau wasanaeth, a bod hyn yn cael ei danategu gan strategaeth sy'n hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac yn cefnogi cymunedau a theuluoedd i ddod yn fwy a mwy annibynnol. Derbyniwyd datganiad sefyllfa hefyd ar y cynnydd wrth ddatblygu protocol lleol i sicrhau mesurau diogelu digonol ar gyfer plant sy'n cael eu dysgu gartref. Mae hwn yn faes y bydd y Panel yn ei fonitro.

- **Strategaeth Gweithlu** – yn ei gyfarfod ym mis Hydref<sup>2</sup> derbyniodd y Panel ddiweddariad ar gynnydd o ran datblygu strategaeth gweithlu ddiwygiedig, fel strategaeth tymor canol. Bydd y strategaeth gweithlu ddiwygiedig yn canolbwyntio ar greu'r amodau i alluogi'r Gwasanaeth i lenwi bylchau yn y strwythur staffio. Disgwylir y bydd y Panel yn craffu ar y strategaeth gweithlu ddiwygiedig (drafft) yn y gwanwyn, 2019
- **Gweithio mewn partneriaeth strategol** – yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd<sup>3</sup>, edrychodd y Panel ar y cyfraniadau sylweddol a wneir gan bartneriaid (rhai mewnol ac allanol) i'r Gwasanaethau Plant. Bydd y Panel yn ystyried nifer o bartneriaid allweddol dros y misoedd nesaf, fel rhan o'r flaen raglen waith –

<sup>2</sup> Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2018

<sup>3</sup> Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2018

**Mewnol**

- i. Gwasanaeth Dysgu
- ii. Gwasanaeth Tai
- iii. Gwasanaeth Hamdden

**Allanol**

- iv. Heddlu Gogledd Cymru
- v. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- vi. Y Trydydd Sector

- **Sesiynau Hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi'u hymgorffori yn rhaglen waith y Panel, caiff y sesiynau hyn eu cynnal ar ddechrau pob cyfarfod o'r Panel. Mae'r pynciau maent wedi ymdrin â hwy dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn cynnwys – Proses Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru; arddangos y System Wybodaeth WCCIS ac achosion o niwed i blant.

### **3. AROLWG O'R GWASANAETHAU PLANT GAN AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (HYDREF, 2018)**

**3.1** Derbyniodd y Panel adroddiad cynnydd ar lafar yn ei gyfarfod ym mis Hydref<sup>4</sup> ar yr arolwg o'r Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Nodwyd fod y gwaith maes wedi digwydd dros gyfnod o bythefnos, a ddaeth i ben ar 19 Hydref, 2018.

**3.2** Roedd yr argymhellion yn adroddiad AGC ym mis Mawrth, 2017 wedi cynnwys cyfeiriad at gefnogaeth gan uwch arweinwyr:

- *Dylai'r Cyngor barhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau plant er mwyn rhoi sicrwydd iddyn nhw eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau fod eu cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol posib [Argymhelliad 4]*
- *Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y Gwasanaethau Plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau gwasanaeth sydd eu hangen yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliant yn cynyddu ac yn cael ei gynnal [Argymhelliad 8]*

Derbyniwyd adborth positif yn dilyn cyfweiliad y Panel gydag AGC ynghlwm â rôl a chyfraniad y Panel tuag at y daith o wella yn y Gwasanaethau Plant.

Derbyniwyd yr adroddiad arolwg drafft yn gwahodd sylwadau ar gywirdeb ffeithiol ym mis Tachwedd a bydd fersiwn derfynol yr adroddiad ar gael ymhen ychydig wythnosau.

### **4. MATERION I'W CYFEIRIO'N UWCH I'W HYSTYRIED GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Y materion canlynol i gael eu cyfeirio'n uwch i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**4.1** Er bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae nifer fechan o swyddi gweithwyr cymdeithasol yn dal i gael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth (adroddwyd hyn yn flaenorol i'r Pwyllgor gan y Panel). Mae hyn yn cael sylw trwy benodi gweithwyr cymdeithasol (rhai profiadol a newydd gymhwyso) a thrwy gefnogi gweithwyr cefnogaeth profiadol i gymhwyso. Dylid

<sup>4</sup> Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2018

nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch cadernid monitro'r Panel hyd yn hyn.

**6 – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ddim yn berthnasol

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Ddim yn berthnasol

**8 – Atodiadau**

Crynodeb o Ymweliadau Laming am y cyfnod Hydref, 2017 → Medi, 2018

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgrwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.  
LL77 7TW

**Y Cyng. Richard Griffiths**  
**Cynrychiolydd y Panel Sgrwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant /**  
**Pencampwr Plant mewn Gofal**  
**Dyddiad: 07/11/18**

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

Dyddiad a Maes:	Swyddogion wnaeth fynychu:	Sylwadau:
<p>19/09/18</p> <p>Cyfarfod hefo Fôn Roberts</p> <p>(Sesiwn i drafod sefyllfa staffio, salwch a gwaith datblygiadol rhanbarthol a cenedlaethol)</p>	<p>Dr. Gwynne Jones Dr. Caroline Turner Cyng. Aled Morris Jones Cyng. Llinos Medi</p>	<p>Pwrpas y cyfarfod hwn oedd sicrhau bod yr Aelodau Etholedig ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ymwybodol o drefniadau rheoli Gwasanaeth Plant. Gwnaeth Fôn gyflwyniad Powerpoint, yn egluro sefyllfa staffio, salwch a gwaith datblygiadol rhanbarthol a chenedlaethol. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau drwy gydol y cyfarfod.</p> <p><b>Beth ydi'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2018-19 allan o'r rhestr ar y sleid?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gweithredu ar bob elfen sydd ar y rhestr, er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.</li> </ul> <p>Nodir: Mi fuasai'n ddefnyddiol grwpio'r blaenoriaethau a dangos pa rai sydd yn strategol, a pa rai sydd yn weithredol o fewn amser byr. Mi fuasai gwneud hyn yn ei gwneud hi'n haws i ddeall beth ydi prif flaenoriaethau'r Gwasanaeth.</p> <p><b>Beth sydd angen cael eu datblygu ymhellach allan o'r SIP?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae yna dri rhan yn ambr o hyd ac angen cael eu datblygu ymhellach: <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwelliant yn ansawdd yr ymarfer;</li> <li>▪ Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir;</li> <li>▪ Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.</li> </ul> </li> <li>• Mae yna welliant sylweddol wedi bod ers yr arolwg diwethaf.</li> </ul> <p><b>Unrhyw sylwadau / awgrymiadau eraill?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mi fuasai'n ddefnyddiol gwybod y % o gwynion yn hytrach na rhifau er mwyn adlewyrchu'r ganran gan bod yna newidiadau mewn niferoedd o blant sydd yn agored i'r Gwasanaeth. Fuasai % yn rhoi darlun fwy cywir.</li> </ul>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae yna gynnydd sylweddol yn perfformiad y Gwasanaeth efo lefelau salwch ac mewn % o staff yn derbyn polisiau corfforaethol.</li> <li>• Yn dilyn cyflwyniad gan Fôn Roberts, mi fuodd y grŵp o amgylch y swyddfa yn cael sgwrs efo staff ac yn cael gwybodaeth am sut mae'r swyddfa wedi ei osod allan o ran timau a'r strwythur.</li> </ul>
<p>17/09/18</p> <p>Diogelu ac Ansawdd</p> <p>(Cynhadledd Achos Ffug efo rôl i'r Aelodau Etholedig)</p>	<p>Dr. Gwynne Jones Cyng. Llinos Medi Cyng. Peter Rogers</p>	<p><b>Y Broses</b></p> <p>Pwrpas yr ymweliad oedd i roi profiad o Gynhadledd Achos i ni, a hynny drwy ymarfer drwy brofiad. Paratowyd nodyn briffio o flaen llaw, fel bod y pedwar ohonom yn deall beth i'w ddisgwyl, a pa rôl y disgwylwyd i bob un ohonom ei chwarae yn ystod y Gynhadledd (sef mam, tad a dau ffrind i'r teulu).</p> <p>Fe wnaeth Cadeirydd y Gynhadledd Achos ein cyfarfod wrth i ni gyrraedd, a mynd a ni i ystafell ar wahân i egluro'r broses. Fe wnaethom ei dilyn i'r ystafell gyfarfod, ble'r oedd yna nifer o swyddogion o wahanol asiantaethau'n bresennol. Cafwyd trafodaeth am sefyllfa'r teulu am yn agos i awr, cyn dod i gasgliad am y camau nesaf.</p> <p>Ar ddiwedd y Gynhadledd Achos cafwyd cyfle i drafod y profiad, gan wneud rhai sylwadau all fod o ddefnydd i'r Gwasanaeth Plant wrth iddynt wella'r trefniadau.</p> <p><b>Sylwadau</b></p> <p>Cadeirwyd y cyfarfod yn effeithiol – cadarn ond hefyd yn gyfeillgar. Chwaraeodd pob aelod o staff a gymerodd ran eu rôl yn effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 'roedd yn bosib gweld pa mor heriol yw i gael cyd-bwysedd rhwng hawliau'r rhieni, a'r cyfrifoldeb i ddiogelu'r plant</li> <li>• 'roedd yn eitha heriol i ni gerdded i fewn i ystafell gyda gymaint o staff proffesiynol; 'roedd eu presenoldeb yn atgyfnerthu difrifoldeb y sefyllfa, ond hefyd yn rhoi'r teimlad o ddiffyg grym yng ngwyneb awdurdod.</li> </ul> <p>'Roedd hwn yn brofiad newydd i ni, ac wedi bod o gymorth i ddeall cymhlethdod gwaith Gwasanaeth Plant, a'r pwysicrwydd o weithio'n effeithiol gyda partneriaid eraill. Fe</p>



**Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018**

		<p>wnaethom holi sut fyddai teuluoedd yn ymddwyn mewn sefyllfa o'r fath, ac eglurwyd bod yna deimladau cryf ym aml yn y cyfarfodydd hyn.</p> <p><b>Unrhyw sylwadau</b> Mae'n bwysig sicrhau bod y teulu'n deall yr holl bapurau ac adroddiadau sydd o'u blaenau – cryn dipyn o waith darllen, ac mae'n bosib bydd rhai angen cymorth i fynd drwyddynt.</p>
19/06/18  Gwasanaeth Arbenigol Plant Integredig	Dr Gwynne Jones Cyng. Llinos Medi Cyng. Bryan Owen	<p>Pwrpas yr ymweliad – derbyn mwy o wybodaeth ynghylch gwaith y Gwasanaeth ynghyd ag unrhyw faterion sydd angen sylw ar gyfer gwella.</p> <p>Rhannwyd gwybodaeth ynghylch strwythur y Tîm, sydd yn gyfuniad a staff y Cyngor Sir a'r Gwasanaeth lechyd. Cafwyd yr argraff fod aelodau'r tîm yn cydweithio'n agos. Adroddwyd bod staff y Gwasanaeth lechyd yn gweithio ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.</p> <p>Nodwyd bod system WCCIS yn profi'n her fel sydd wedi digwydd i bob agwedd o'r Gwasanaeth ehangach. Dywedwyd bod rhaid cadw copïau papur o a'r gwaith a wneir gydag lechyd a bod storio'r holl ddogfennau yn sialens ar hyn o bryd.</p> <p>Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ail-strwythuro fe nododd y staff bod hwn wedi bod yn llwyddiannus gyda phawb yn barod i gynorthwyo a chefnogi'r naill a'r llall.</p> <p>Nodwyd hefyd bod Datblygu Strategaeth ar gyfer disgyblion gydag anabledau ar y gweill.</p> <p><b>Materion sydd angen sylw</b> Delio gyda'r gofynion ychwanegol yn sgil dyfodiad y Ddeddf a chadw golwg ar lwyth gwaith staff o ganlyniad.</p> <p>Sicrhau bod WCCIS yn cyfarfod a gofynion y Gwasanaeth.</p>
29/05/18	Annwen Morgan	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau gonest.</li> </ul>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

<p>Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd</p>	<p>Cyng. Ken Hughes Cyng. Peter Rogers</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio ar sail data, tueddiadau.</li> <li>• LlapRh + CJ yn glir iawn beth yw'r weledigaeth a'r allbynnau disgwylidig i CSYM.</li> <li>• Y Swyddogion yn sylweddoli pwysigrwydd data a chymariaethau ar draws Cynghorau Gogledd Cymru.</li> <li>• Wedi adnabod y gwendid yn yr hen sustem lle roedd plant / pobl ifanc / teuluoedd dim yn cael y cymorth angenrheidiol (y windscreen)</li> <li>• Dysgu llawer gyda'r ymweliad Laming e.e. dim ond y llysoedd gyda'r hawl i dynnu plant oddi wrth eu teuluoedd.</li> </ul>
<p>30/04/18  Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd</p>	<p>Dr. Caroline Turner Cyng. R. Meirion Jones</p>	<p><b>a) Sut ellir gwella'r gwasanaeth?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'n fuddiol gallu cynnig gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, gan gynorthwyo rhai teuluoedd cyn i argyfwng ddigwydd (gan gydnabod bod yn haws gweithio hefo rhai pan mae nhw yng nghanol argyfwng)</li> <li>• Y nod yw hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol ac Addysg y ddau Gyngor, staff y Bwrdd Iechyd, a staff Cyfiawnder Ieuenctid fel eu bod hwy yn gallu defnyddio rhai o ddulliau IFSS. Hyfforddiant i dri grŵp wedi ei drefnu ar gyfer yr haf.</li> </ul> <p><b>Unrhyw sylwadau / awgrymiadau eraill?</b></p> <p>Mae'n rhaid i deuluoedd gael eu cyfeirio at IFSS gan Wasanaethau Plant. Nodwyd bod Gweithwyr Cymdeithasol y ddwy Sir yn parhau i ddal yr achosion mae IFSS yn gweithio gyda hwy. Staff IFSS yn mynd hefo teuluoedd i fod yn gefn iddynt mewn cyfarfodydd ffurfiol pan mae eu plant ar y Gofrestr Risg. Nodwyd bod 'case-loads' staff IFSS yn weddol isel i'w galluogi i weithio yn ddwys hefo teuluoedd.</p> <p>Nodwyd bod pethau wedi gwella yng Ngwasanaeth Plant Cyngor Sir Ynys Môn yn ddiweddar a bod popeth wedi newid, gyda'r lle yn hapusach, pawb yn canolbwyntio ar eu gwaith, morale staff yn well, a bod ganddynt fwy o amser i siarad pan mae staff IFSS yn ymweld. Nodwyd hefyd bod y Rheolwr yn cael gwahoddiad i holl gyfarfodydd Cyngor Sir Ynys Môn (gan gynnwys Legal Gatekeeping) a Cynhadledd Staff misol. Er gwaethaf hyn, mae yna lai o achosion wedi eu cyfeirio at IFSS o Ynys Môn yn ddiweddar, a bydd y Rheolwr yn gwneud cyflwyniad ar waith y tîm i'r Gynhadledd Staff nesaf. Pe byddai mwy</p>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

		<p>o achosion yn dod o Ynys Môn, byddai'n rhaid llenwi swydd wag er mwyn sicrhau bod yna ddigon o adnodd staff i weithio hefo'r teuluoedd.</p> <p>Byddai'n fuddiol comisiynu Gwerthusiad o waith IFSS, efallai fel rhan o Werthusiad Rhanbarthol neu Cenedlaethol.</p>
<p>16/02/18</p> <p>Bryn Hwfa (Gwasanaeth Cefnogol i Blant)</p>	<p>Dr Caroline Turner Cyng. Richard Griffiths Cyng. Peter Rogers Cyng. Ken Hughes</p>	<p>Angen nodi fod y Gweithwyr Cefnogol yn brysur hefo'r bobl ifanc, felly ni chafwyd trafodaeth lawn hefo nhw, ond rhoddwyd y cynnig iddynt ddod atom am sgwrs yn y gegin ar ddiwedd yr ymweliad, os oedd yna unrhyw beth yr oeddent yn dymuno ei drafod hefo ni.</p> <p>Natur yr ymweliad yn dod â'r gwaith yn fyw – byddai'n fuddiol cynnal rhai o'r ymweliadau eraill mewn lleoliadau ble mae staff Plant yn gweithio, er efallai ddim yn briodol cyfarfod hefo plant a theuluoedd. Er enghraifft, efallai gallwn drafod gwaith Gweithwyr Cefnogol mewn lleoliadau ble mae Cyswllt yn digwydd (oni bai fod yna elfen o gyfrinachedd am y lleoliadau).</p>
<p>23/01/18</p> <p>Uned Gwella Ansawdd a Diogelu</p>	<p>Cyng. Llinos Medi Huws Cyng. Bryan Owen</p>	<p>Roedd yr Arweinydd yn nodi ei fod yn amlwg bod camau anferthol wedi digwydd o ran datblygu'r Uned a'r gwaith gwella ansawdd sydd wedi cychwyn.</p> <p>Roedd pawb o'r Uned yn teimlo eu bod yn gweithio mwy fel tîm nŵan a bod Anwen yn trystio bob un o'r staff i wneud eu gwaith. Mae gweithio'n hyblyg yn gweithio'n dda i'r tîm. Mae goruchwyliaeth yn digwydd ynghyd â chefnogaeth fel bo angen rhwng sesiynau. Mae ganddynt gefnogaeth Swyddogion Gweinyddol penodol gwych o ran trefnu'r cyfarfodydd diogelu, ond prin ydi'r capasiti ar gyfer cefnogaeth ar gyfer materion gweinyddol eraill y swyddogion. Felly maent yn archwilio dulliau gweithio'n fwy effeithiol efo technoleg gan ddefnyddio'r meddalwedd 'Dragon'. Mae'r tîm mewn stafell efo'i gilydd rŵan ers ail-strwythuro'r gofod swyddfa.</p> <p>Roedd y Cynghorydd Bryan Owen yn nodi bod cysondeb yn yr hyn oedd yn cael ei ddweud yn yr ymweliad yma efo be oedd yn cael ei ddweud yn y Panel Plant y bora hwnnw.</p>

**Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018**

		<p>Yn y dyfodol, y gobaith yw y bydd yr argymhellion o'r awdits yn lleihau er rydym yn derbyn na fydd gwella byth yn stopio, mae yna wastad gamau y bydd angen eu cymryd.</p> <p><b>Camau nesaf:</b> Cynhadledd staff nesaf ar gyfer y staff sydd wedi cymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol i gytuno 'Safonau Ymarfer' a bydd angen edrych ar flaenoriaethu'r argymhellion sydd yn Cynllun Gwella'r Gwasanaeth er mwyn ffurfio Cynllun Gwella Ymarfer.</p>
19/12/17  Teuluoedd Gwydn	Annwen Morgan Cyng. Ken Hughes	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arweinyddiaeth gadarn i'r tîm</li> <li>• Dulliau gweithredu yn seiliedig ar brofiadau amrywiol aelodau o'r tîm, ond hefyd yn seiliedig ar waith ymchwil.</li> <li>• Y tîm yn gadarnhaol, dim yn rhoi'r ffidil yn y to ac yn dal gobaith i'r teuluoedd nes eu bod yn deuluoedd gwydn.</li> <li>• Y tîm yn sylweddoli'r her o'u blaenau ac ddim am sefyll yn llonydd oherwydd cynlluniau ynglŷn â e.e. pa hyfforddiant pellach sydd ei angen:</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Brief Solution Focused Therapy</li> <li>b) Am ddatblygu canllawiau gweithredu.</li> <li>c) Ymglyfarwyddo mwy a defnyddio'r Twlsyn Asesu.</li> <li>d) Sicrhau eu bod yn arfarnu eu gweithrediadau yn onest a thrylwyr e.e. arfarnu effaith yr hyfforddiant presennol cyn symud at rywbeth arall.</li> <li>e) Y tîm yn amlwg yn gweithio'n dda efo'i gilydd.</li> </ul> <p><b>CYNNIG</b> Yn yr ymweliad nesaf, cynigir bod pwyslais ar niferoedd y teuluoedd a'r plant gan ddeall cymhlethdod yr achosion (heb ddatgelu ffeithiau) yn ogystal â chael gwybod beth yw'r rhagolygon ynghylch nifer y teuluoedd a'r plant y bydd y tîm hwn yn gweithio gyda nhw yn y flwyddyn nesaf.</p>
19/12/17	Annwen Morgan Cyng. Ken Hughes	<p>a) Beth sydd angen ei wella? Ateb: a) Cydweithio mwy gyda: i) Teulu Môn ii) 3ydd Sector</p>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

<p>Gwasanaethau Arbenigol Plant (GAP)</p>	<p>Cyng. Llinos Medi Huws</p>	<p>l'r teulu</p> <p>b) Datblygu ystod ehangach o gyfleoedd seibiant byr a datblygu ffyrdd i'r teuluoedd gael mynegi barn.</p> <p>Plant</p> <p>c) Sicrhau ehangu cyfleoedd i blant a phobl ifanc anabl.</p> <p>d) Yn fewnol fel tîm:</p> <p>i) edrych ar gapasiti ystafelloedd cyfweld ii) edrych ar ddyletswydd ac arbenigeddau – ond ni ddywedwyd pam? Nac erbyn pryd?</p> <p><b>Sylwadau:</b></p> <p>a) Arweinyddiaeth frwdfrydig. b) Y tîm yn angerddol a chadarnhaol am eu gwaith. c) Yr ochr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda pherthynas weithio dda.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b></p> <p>a) Gan y cyfeiriwyd at yr hyn sydd angen ei ddatblygu ar y 19/12/2017, byddai'n dda cael diweddariad ar gynnydd yr argymhellion a gweld sut mae'r tîm yn cynllunio ymlaen. b) Byddai'n dda cael trafodaeth fanylach ar y data yn yr ymweliad LAMING nesaf.</p>
<p>15/11/17 Teulu Môn</p>	<p>Dr. Gwynne Jones Cyng. Gwilym O Jones</p>	<p>Nodwyd bod angen parhau i wella prosesau fel bod y gwasanaeth yn gweithredu yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod llai o deuluoedd yn cael eu cyfeirio; llai o deuluoedd angen ymyrraeth ddwys; problemau yn cael eu datrys yn gynt.</p> <p><b>Beth yw'r camau nesaf?</b> Gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Yn ogystal, gwella mynediad at y wybodaeth ynghylch cefnogaeth sydd ar y wefan mewn ymgais i leihau nifer y galwadau ffôn.</p>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

		<p>Ymgysylltu gyda theuluoedd ac asiantaethau.</p> <p>Egluro'r prosesau newydd o ran cyfeirio i asiantaethau. Gwneud defnydd o'r cysylltiad teuluoedd a ddatblygwyd gan y Cyd-gysylltydd Chwarae - nodwyd bod tua 1000 o gysylltiadau wedi'u trosglwyddo.</p> <p>Annog pob asiantaeth i gael y drafodaeth 'beth sydd yn bwysig'.</p> <p>Nodwyd yr angen i wella safon y cyfeiriadau ar draws yr holl bartneriaid. Bydd angen cefnogaeth ac arweiniad er mwyn sicrhau cysondeb ar draws holl bartneriaid.</p> <p>Adroddwyd bod capasiti a galluogrwydd wedi gwella. Mae'r cynnydd yn nifer arweinwyr ymarfer a swyddogion ymgysylltu wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y gwaith.</p>
20/10/17  Tîm Gweithlu / Lleoli Plant	Dr Caroline Turner Cyng. Aled Morris Jones Cyng. Richard Griffiths Llŷr Bryn Roberts	<p>Roedd y tîm wedi paratoi'n dda ar gyfer y cyfarfod ac fe gafwyd dau gyflwyniad Powerpoint a taflen. Roedd rhai o'r adnoddau a ddefnyddir gan y tîm hefyd i'w gweld ar y bwrdd.</p> <p>Roedd y tîm yn gallu egluro sut yr oedd natur eu gwaith wedi newid: y symudiad tuag at Ofalwyr Carennydd.</p> <p>Roedd teuluoedd yn llawer iawn mwy cymhleth y dyddiau hyn. Roedd anghenion rhai plant yn uchel iawn sy'n golygu nad yw Gofalwyr Maeth lleol bob amser yn addas ar eu cyfer.</p> <p>Roedd y sawl oedd â diddordeb mewn bod yn Ofalwyr Maeth yn gynyddol yn cael mwy o wybodaeth ac yn cysylltu drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol (70%) yn hytrach na drwy Sioe Môn. Roedd yr Asiantaethau Maethu Annibynnol wedi ystumio'r "farchnad" ar gyfer Gofalwyr Maeth, maent yn costio'n sylweddol fwy i'r sector cyhoeddus er nad yw ffioedd y Gofalwyr o angenrheidrwydd yn uwch.</p>

## Crynodeb Ymweliadau Laming Gwasanaethau Plant a Teuluoedd Hydref 2017 – Medi 2018

		<p>Yn ogystal, soniodd y tîm am yr hyfforddiant sydd ar gael i Ofalwyr Maeth – drwy'r Bont, ac yn uniongyrchol gan aelodau'r tîm (Dorian a Llinos). Mae hyfforddiant ar-lein ar gael ac mae'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn cydweithio.</p> <p>Mae gan Ynys Môn gynllun Tâl am Sgiliau.</p> <p>Nododd Dawn y bydd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn arwain at newidiadau sylweddol a bod Rheoliadau Maethu 2003 yn cael eu hadolygu a Chodau Ymarfer newydd yn cael eu datblygu.</p> <p>Eglurodd Llyr bod y Gwasanaeth wedi ei gofrestru fel Asiantaeth Faethu gydag AGGCC a'i fod o'r herwydd yn cael ei arolygu bob blwyddyn (er na chafwyd arolwg eleni). Gofynnodd y Cyng Aled Morris Jones faint o swyddi Gweithwyr Cymdeithasol sy'n wag yn y Gwasanaeth. Eglurodd Llyr fod 5 o swyddi gwag ond bod Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth yn eu llenwi.</p> <p>Eglurodd Llyr fod y swyddi gweigion wedi codi oherwydd fod 4 o bobl wedi cael eu dyrchafu a bod un aelod o staff wedi symud o'r ardal am resymau teuluol. Mae proses recriwtio'n mynd rhagddi yn barhau a bydd hysbyseb yn ymddangos yn y Guardian yn o fuan. Nododd Llyr ein bod wedi recriwtio saith o Weithwyr Cymdeithasol yn ystod y misoedd diwethaf ac y bydd nifer y Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth yn gostwng yn raddol. Bydd hyn yn rhoi mwy o barhad a chysondeb i blant a theuluoedd.</p> <p>Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnodd y Cyng Richard Griffiths sut y gallai Aelodau Etholedig helpu'r tîm. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r holl Gynghorwyr fod yn fwy gwybodus am waith y tîm er mwyn iddynt fedru annog pobl leol i fod yn ofalwyr maeth. Nododd Llyr fod angen i ni ystyried sut i gefnogi'r Cyng Griffiths yn ei rôl fel Eiriolydd ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol.</p>
--	--	--